This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

CO21039 Heol Draenen Pen-y-graig a Rhodfa Templeton (Teithio Llesol i Ysgolion)

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

Hydref 2022

Cyflwyniad

Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal ar gynnig i wella'r seilwaith cerdded a beicio yn ardal Heol Draenen Pen-y-graig / Rhodfa Templeton yn Wardiau Llanisien a Rhiwbeina. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 13/05/2022 a 03/06/2022.

Gweithgareddau Ymgynghori

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun
- E-bost at randdeiliaid ac ymgyngoreion statudol
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor

Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Cafwyd **5** ymateb unigol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, ac mae dadansoddiad o'r ymatebion fel a ganlyn:

5: Cefnogaeth, a nifer yn cefnogi gyda sylwadau / awgrymiadau ychwanegol.

Sylwadau Cefnogol

Cafwyd nifer o sylwadau yn dweud y bydd y cynllun hwn yn gwella diogelwch cerddwyr drwy'r ardal.

Roedd yna sylwadau hefyd yn dweud y bydd y mesurau hyn yn gwella teithio llesol ac yn annog mwy o gerdded, sgwtera a beicio yn ôl ac ymlaen i ysgolion yr ardal.

Canlyniad yr Ymgynghoriad

O ystyried yr ymgynghoriad cyhoeddus cynigir **bwrw ymlaen** â'r cynnig fel y dangosir ar y cynllun amgaeedig.

Materion Penodol

Mae materion penodol a godwyd trwy'r ymgynghoriad wedi'u nodi isod ynghyd ag ymateb y Cyngor. Lle mae'r un mater wedi'i godi gan ymatebydd gwahanol, mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

Mater	**Ymateb**
Cafwyd sylwadau ynghylch a allai mesurau arafu traffig ychwanegol gael eu cyflwyno mewn lleoliadau eraill ledled yr ardal.	Mae'r cyllid ar gyfer y Cynllun hwn wedi cael ei ddyfarnu gan Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, ac nid oes unrhyw arian ychwanegol ar gael tuag at gyflwyno nodweddion ychwanegol ar hyd y llwybr hwn. Mae cyfyngiad cyflymder o 20mya ar bob ffordd yn y cynllun. Ym mis Medi 2023, 20mya fydd y terfyn cyflymder diofyn ar y ffyrdd ym mhob ardal adeiledig yng Nghymru. Cyngor Llywodraeth Cymru yw na ddylai awdurdodau lleol gyflwyno mesurau arafu traffig ychwanegol fel modd o sicrhau mwy o gydymffurfiaeth gyda chyfyngiadau o 20mya. Os oes gan breswylwyr unrhyw bryderon eraill ynghylch diogelwch ar y ffyrdd, gallant eu hanfon drwy e-bost i: projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu drwy'r post i Prosiectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW ar gyfer ymchwiliad.
Derbyniwyd sylw ynglŷn â phe bai modd uwchraddio'r croesfannau sebra dyrchafedig arfaethedig i signalau croesfannau dan reolaeth.	Hoffem eich hysbysu y cynhaliwyd asesiad o ddiogelwch cymharol croesfannau sebra yn erbyn croesfannau a reolir gan signalau (h.y. pâl, pelican, twcan) yng Nghaerdydd yn 2014. Nododd yr asesiad hwn nad oes achos amlwg dros gredu bod un math o groesfan yn fwy diogel na'r llall, o ran amlder gwrthdrawiadau na'u difrifoldeb. Mewn llawer o leoliadau ac o dan amodau llif traffig a cherddwyr priodol, mae croesfannau sebra yn briodol ac mae ganddynt y fantais eu bod yn rhoi blaenoriaeth amser llawn i gerddwyr yn erbyn cerbydau. Am y rheswm hwn, nid oes unrhyw gyfiawnhad ar hyn o bryd i newid y math o groesfan. Mae'n destun gofid nad yw rhai gyrwyr yn talu digon o sylw i stopio wrth groesfannau sebra pan fo cerddwr yn aros i groesi. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn Rheolau'r Ffordd Fawr, dylai cerddwyr aros nes bod traffig wedi stopio cyn defnyddio unrhyw groesfan ac mae hyn yn berthnasol i groesfannau pâl neu yn wir unrhyw groesfan arall a reolir gan signalau. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol o ddigwyddiadau lle mae gyrwyr wedi methu â stopio pan oedd y golau'n goch wrth groesfannau ac mae'r risg o wrthdrawiad o ganlyniad yn uwch, gan fod cerddwyr yn tueddu i roi

	llai o sylw i draffig gan eu bod yn ymddiried yn y signalau.
Cais am folardiau ar rai rhannau o droedffordd.	Ar ôl gweithredu'r cynllun hwn yn rhan o waith monitro ar ôl y cynllun caiff arolygon eu gwneud i nodi a oes angen cyflwyno bolardiau yn rhan o'r cynllun hwn.
Gwnaed cais am gyflwyno Gorchmynion Rheoli Traffig mewn gwahanol leoliadau drwy gydol y cynllun.	Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i Orchmynion Rheoli Traffig fel rhan o'r cynllun hwn, dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am Orchmynion Rheoli Traffig at y tîm Gorchmynion Rheoli Traffig i ymchwilio iddynt, gallwch gysylltu â'r tîm drwy'r manylion isod: Tîm Gorchmynion Rheoli Traffig, Cyngor Caerdydd, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW gwasanaethaucymdogaeth-cymorthbusnes@caerdydd.gov.uk

Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar newidiadau arfaethedig i'r briffordd, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun diwygiedig a welir. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.

CARDIFF
CAERDYDD



Following the recent consultation on proposed changes to the highway, the Council is preparing to implement the scheme based on the revised plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.

CARDIFF
CAERDYDD